

CRYNODEB GWEITHREDOL: YSGOLION YR 21AIN GANRIF – YSGOL CROESYCEILIOG – CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAID

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn esbonio canlyniad y broses ymgynghori mewn perthynas â chynnig i leihau capasiti 11-16 yn Ysgol Croesyceiliog i 1200 lle.

2 Diben yr Adroddiad

- 2.1 Rhoi manylion canlyniad y broses ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig hwn.

3 Negeseuon Allweddol

- 3.1 Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn ymwneud â chynnig fel y mae'n effeithio Ysgol Croesyceiliog fel y nodir ym Mand A (2014 i 2019) Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y cyngor.

- 3.2 Roedd angen ymgynghori'n ffurfiol ar y cynnig hwn oherwydd ei fod yn cynnig gostyngiad yng nghapasiti ffisegol yr ysgol ac ni fydd y capasiti arfaethedig yn fwy na nifer uchaf y disgyblion ar gofrestr yr ysgol ar unrhyw adeg yn y ddwy flwyddyn ysgol cyn cyhoeddi'r cynnig.

Roedd 1,314 o ddisgyblion 11-16 ar y gofrestr ym mis Medi 2014 a 1,319 ym mis Medi 2015, wedi eu mesur yn erbyn y capasiti arfaethedig o 1200 o fis Medi 2018.

- 3.3 Ym mis Medi 2016, cytunodd Cabinet Torfaen gychwyn ymgynghori ar y cynnig penodol hwn.
- 3.4 Cynigir bod y newid hwn yn cael ei weithredu ar 1af Medi 2018.

4 Cefndir

- 4.1 Ymgwymerwyd ag ymgynghoriad ar y cynnig hwn gydag ymgynghorai penodedig yng nghod Trefniadaeth yr Ysgol. Rhedodd y cyfnod ymgynghori am 6 wythnos o ddydd Llun 17eg Hydref hyd at ddydd Llun 28ain Tachwedd 2016.

- 4.2 Ymgwymerwyd â'r ymgynghoriad trwy gyfrwng dogfen ymgynghori a ffurflen ymateb gysylltiedig a ddisbarthwyd i'r ymgynghorai. At hyn, dosbarthwyd rhyw 3,300 o lythyrau i Ysgol Croesyceiliog a'i hysgolion "partner"/bwydo cynradd i'w rhoi i ddisgyblion a'u rhieni/gofalwyr yn eu hysbysu bod y ddogfen ymgynghori ar gael.

- 4.3 Mae cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori yn ganolog i'r broses ymgynghori a bennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Roedd y ddogfen yn amlinellu'r newidiadau sy'n cael eu hystyried, y rhesymeg y tu cefn i hyn, manylion y broses ymgynghori ac roedd yn cynnwys ffurflen ymateb.

5 Materion a chanfyddiadau

- 5.1 Derbyniodd yr Awdurdod Lleol nifer o ymatebion i'r ymarfer ymgynghori.
- 5.2 Mae ffeil gyda'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gael i'r aelodau etholedig fel rhan o'r broses hon a chyn i unrhyw benderfyniadau gael eu cymryd.
- 5.3 Derbyniwyd/gwnaed 8 ymateb/sylw unigol mewn perthynas â'r cynnig hwn.
- 5.4 Crynhoir y materion a godwyd, ynghyd ag ymatebion yr Awdurdod Lleol, yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad. Er mwyn cyfeirio'n hawdd atynt, rhestrir y prif feysydd isod:
 - Capasiti arfaethedig yr ysgol
 - Staff
 - Costau
 - Y broses ymgynghorol
 - Buddsoddiad
 - Pryderon yn benodol am ddisgyblion

6 Materion allweddol

- 6.1 Roedd angen ymgynghoriad statudol oherwydd bod y cyngor yn cynnig lleihad yng nghapasiti ffisegol yr ysgol
- 6.2 Yn benodol, bydd y capasiti a'r Nifer Derbyn cysylltiedig yn gostwng o'r 1af Medi 2018.
- 6.3 Cynigir y byddai adeilad Croesyceiliog newydd ar gael i'w ddefnyddio ym mis Medi 2019 a bydd lleihau'r capasiti o fis Medi 2018 yn helpu i reoli'r trosglwyddiad a'r costau referniw sy'n gysylltiedig â'r adeilad newydd.

7 Beth sy'n digwydd nesaf?

- 7.1 Mae'r llinell amser fynegol ganlynol yn manylu beth sy'n digwydd nesaf ac yn nodi'r broses statudol:
 - Ymgynghoriad cychwynnol ar y broses rhwng 17eg Hydref 2016 a 28ain Tachwedd 2016
 - Cabinet yn derbyn adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad (gan gynnwys adroddiad yr ymgynghoriad) ac ystyried y camau nesaf – Ionawr 2017
 - Os cytunir, cyhoeddi hysbysiadau statudol (cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod) – Ionawr / Chwefror 2017
 - Ystyried gwrthwynebiadau ac ystyried y camau nesaf – Mawrth/Ebrill 2017
 - Gweithredu'r cynnig – dechrau blwyddyn academaidd 2018/19

8 Casgliad / Crynodeb

8.1 Bydd gweithredu'r cynnig hwn yn ffurfio rhan hanfodol o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn Nhorfaen, o ran:

- rheoli lleoedd dros ben yn effeithiol
- caniatáu i'r Awdurdod Lleol resymoli ei stoc adeiladau ac felly bod â llai o ysgolion i'w cynnal a'u hariannu
- medru darparu safon uchel ac ehangder mewn addysg i'r holl ddisgyblion yn y gymuned.

9 **Gwybodaeth bellach**

9.1 Mae copïau llawn o'r ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ar yr ymgynghoriad a grybwyllir yn y crynodeb gweithredol hwn i'w cael trwy ffonio 01495 766910 neu fynd i wefan y Cyngor: www.torfaen.gov.uk.

Os oes angen gwybodaeth bellach ar y cynnig hwn, cysylltwch â Mark Horton ar 01495 766910 neu ebost: mark.horton@torfaen.gov.uk

